

ADRAN A

1. Sylwch ar y ddau hafaliad hyn:


$$8^2 - 7^2 = 15 \times 1$$

$$6^2 - 4^2 = 10 \times 2$$

Faint yw $18^2 - 12^2$?

- a) 36×1 b) 18×12 c) $36 - 24$ ch) 30×6 d) 14×11

2. Yn y diagram hwn mae dau betryal yn amgau 5 ardal. Beth yw'r nifer fwyaf o ardaloedd y gellir eu hamgau trwy lunio dau betryal ar ddarn o bapur?




- a) 5 b) 6 c) 7 ch) 8 d) 9

3. Mae 2008 yn flwyddyn naid. Roedd 27 Chwefror yn Ddydd Mercher. Pa ddiwrnod fydd 27 Ebrill?

- a) Mercher b) Iau c) Gwener ch) Sadwrn d) Sul

4. Y rhif ym mhob bloc yw cyfanswm y ddau rif oddi tano.



Faint yw'r rhif A?

- a) 3 b) 4 c) 5 ch) 6 d) 7

5. Eleni rydym yn dathlu bywyd a gwaith Robert Recorde (1510?-1558) a fu farw 450 o flynyddoedd yn ôl. Ganed Recorde yn Ninbych-y-pysgod, Sir Benfro, a daeth yn fathemategydd enwog.

Recorde a ddyfeisiodd yr arwydd hafal: =


Wrth bwysu'r botymau a ganlyn ar fy nghyfrifiannell rwyf yn cael yr ateb 8:

$$2 \times 2 = =$$

Faint yw'r ateb ar ôl i mi bwysu'r botymau hyn ar fy nghyfrifiannell?

$$2 \times 2 = = = = =$$


- a) 14 b) 16 c) 32 ch) 64 d) 128
6. Arwynebedd y trapesiwm sy'n rhan o'r llun hwn yw 18 cm^2 . Faint yw arwynebedd y rhombws sy'n rhan o'r llun mewn cm^2 ?




- a) 6 b) 12 c) 18 ch) 24 d) 36
7. Mae p yn rhif cyfan positif a q yn rhif cyfan negatif. Pa un o'r canlynol yw'r mwyaf?
- a) $p - q$ b) $q - p$ c) $p + q$ ch) $-p - q$
d) mae angen mwy o wybodaeth

8. Mewn ysgol mae cant o blant ym Mlwyddyn 8. Mae 60 o'r plant hyn yng nghôr yr ysgol ac mae 20 ohonynt yn y gerddorfa. Mae 12 o'r plant yn y côr a'r gerddorfa. Faint o blant sydd ddim yn y côr na'r gerddorfa?
- a) 8 b) 20 c) 24 ch) 28 d) 32

9. Rwyf wedi lliwio un fertig o'r ciwb hwn. Pa ddau wyneb arall sydd wedi'u lliwio?



- a) A, B b) A, D c) A, E ch) B, C d) B, E
10. Yn y llun hwn mae'r sgwariau bach i gyd yr un faint â'i gilydd. Pa ffracsiwn o'r sgwâr mawr sydd wedi ei liwio?



- a) $\frac{1}{4}$ b) $\frac{1}{3}$ c) $\frac{1}{2}$ ch) $\frac{2}{3}$ d) $\frac{3}{4}$
11. Mae pob sgwâr sydd heb ei liwio yn cynnwys rhif rhwng 1 a 9. Ni ddefnyddir yr un rhif ddwywaith. Dangosir cyfanswm y rhifau yn y rhesi a'r colofnau. Pa rif yw A?

			Cyfanswm 12
	2		7
	A		13
Cyfanswm	4	16	12


- a) 1 b) 3 c) 5 ch) 7 d) 9


Ysgol: Dosbarth:

Enw:

ADRAN B

1 Chwiliwch am gymaint o ffyrdd ag sy'n bosibl i rannu'r sgwâr hwn yn ddau hanner. Defnyddiwch linellau syth yn unig. Rhaid i bob llinell gychwyn a gorffen ar ddot. **NID OES DOTIAU AR Y CORNELI.** Mae'r cyntaf wedi'i wneud i chi.





Mae'r pedwar plentyn Alis, Ben, Cerys a Dafydd yn eistedd mewn llinell ar bedair cadair. Mewn sawl ffordd wahanol y gallant drefnu eu hunain os na chaiff y ddau fachgen eistedd wrth ymyl ei gilydd? Nodwch y posibiladau isod.